LEG-02-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Brian Gibbons | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Peter Law | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Alun Pugh

**Eitem 1:Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-01-2002(min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd:**
2.1 Croesawodd y Cadeirydd Simon Thwaite, a fyddai'n ymgymryd â swydd y Dirprwy Glerc yn y Pwyllgor**.**

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau i hysbysu Clerc y Pwyllgor os byddent hwy, neu eu hymchwilwyr, yn mynychu'r seminar amser cinio ar y broses o ddrafftio a phrosesu deddfau a fyddai'n cael ei gynnal ar 27 Chwefror.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau ei fod wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor, yn eu gwahodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau**.** Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod ymweliadau cyfnewid wedi eu cynnal ym Medi 2000 rhwng y Pwyllgor ac aelodau Is-Bwyllgor Deddfau Senedd yr Alban er mwyn iddynt allu mynychu cyfarfodydd pwyllgor ei gilydd a chyfnewid safbwyntiau ar arferion a gweithdrefnau. Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniad y byddai'r cydweithrediad parhaol hwn â chyrff llywodraethol sy'n meddu ar gyfrifoldebau tebyg yn ddefnyddiol i'r holl bleidiau a fyddai'n cymryd rhan. Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth yr aelodau i wahodd y Cadeirydd a chynrychiolwyr y Pwyllgor Dadreoli a Diwygio Rheoliadol i ymweld â Phwyllgor Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr un achlysur. Er nad yw'r Pwyllgor Deddfau yn ymdrin â'r Gorchmynion Diwygio Rheoliadol, roedd y pwnc hwnnw o ddiddordeb i'r aelodau a chroesawyd y cyfle i gyfnewid y wybodaeth am waith y ddau bwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC389: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 13) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC389 (Adroddiad).

**LC390: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 14) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC390 (Adroddiad).

**LC395: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2002**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn

Weithredol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC395 (Adroddiad).

**LC393: Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC393 (Adroddiad).

**LC394: Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002**
3.13 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC394 (Adroddiad).

**LC396: Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3. 17. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC396 (Adroddiad).

**LC397: Gorchymyn y Bwrdd Marchnata Llaeth (Diddymu) 2002**
3.19 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Gyflym.

3. 20. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC397 (Adroddiad).

**LC398: Rheoliadau Tatws sy’n Deillio o’r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.22 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Gyflym.

3. 23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC398 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Ionawr 2002.